



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022
DYDDIAD	20 Hydref, 2022
GAN	Lesley Griffiths AS Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd aelodau'r Senedd am wybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru mewn maes datganoledig.

Ceisiwyd cytundeb gan Victoria Prentis AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 a fydd yn berthnasol i Brydain Fawr.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer pŵer a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn diwygio Rheoliad a ddargedwir (EU) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus ("Rheoliadau POP a ddargedwir"). Mae'n gwneud mân ddiwygiadau technegol sy'n disodli dwy swyddogaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn Rheoliadau POP a ddargedwir â swyddogaethau ar gyfer yr awdurdod priodol, yn unol â chywiriadau a wnaed eisoes mewn manau eraill yn yr Atodiad. Mae'r diwygiadau hefyd yn rhoi yn ôl randdirymiad a gafodd ei hepgor drwy ddamwain. Mae'r OS hefyd yn cywiro'r Rheoliad yn Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 lle nad oes gan y darpariaethau rym cyfreithiol o dan Reoliadau POP a ddargedwir mewn perthynas ag asid perffloröctan sylffonig (PFOS).

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r diwygiadau, yn eu hanfod, fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael o fewn offeryn sengl. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau

sydd eu hangen, ac na fyddai'n defnyddio adnoddau Llywodraeth Cymru mewn modd pwyllog, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill Yn ogystal, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau sy'n fach ac yn dechnegol.